

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar y 14eg Gorffennaf, 2009, yn Y Felin Sgwrsio, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 14th July, 2009 at the Felin Sgwrsio , Y Felinheli

Yn Bresennol/Present: Sian Gwenllian (Cadeirydd)
Ken Brown(Is-Gadeirydd)
Lena Ashley; Iestyn Harris; Pat Jones;
Eluned Owen; Gerald Roberts;
George Smith; Daniel Williams.

4) Cyfethol Meirion Wyn Roscoe / Co-opt Meirion Wyn Roscoe

Cyfetholwyd Mr Meirion Wyn Roscoe fel Cyngorydd ar Gyngor Cymuned Y Felinheli. Arwyddodd y Datganiad yn derbyn y swydd a'i ymrwymiad i'r Côd Ymddygiad.

Mr Meirion Wyn Roscoe was co-opted as a Councillor on the Felinheli Community Council. He signed the required Declaration accepting office and his willingness to comply with the Code of Conduct.

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Estynnwyd croeso i'r Cyfarfod.

A welcome was extended to the meeting.

2) Anerchiad gan Mr Gareth Roberts / Address by Mr Gareth Roberts

Gwahoddwyd Mr Gareth Roberts i'r cyfarfod yn dilyn ei brosiect yn cynllunio mapiau llwybrau yn Llanddeiniolen. Derbyniwyd gopi o fap yn ardal Llanddeiniolen yn y cyfarfod diwethaf a phenderfynwyd estyn gwahoddiad iddo anerch y cyfarfod. Amlinellodd y ffordd mae yn cyfansoddi map ac sut ddaeth map Plwyf Llanddeiniolen i fodolaeth a'i ariannu. Pwrpas y map oedd creu rhwydwaith o lwybrau wedi ei selio ar lwybrau cyhoeddus yn y plwyf.

Derbyniwyd a diolchwyd iddo am ei anerchiad a phenderfynwyd trafod fel eitem ymhellach yn ystod y cyfarfod.

Mr Gareth Roberts was invited to attend the meeting following his project in compiling a map of the footpaths in the Parish of Llanddeiniolen. A copy of his map had been received at the last meeting and it had been decided that Mr Gareth Roberts be invited to attend. He outlined the process undertaken in compiling a map and how the project at Llanddeiniolen was composed and financed. The

purpose of the map was to create a network of footpaths based on existing public footpaths in the Parish.

His address was received with grateful thanks and it was decided to discuss the matter as an item later on during the meeting.

3) Ymddiheuriadau/Apologies: Aled Job; Pat White

5) Datgan Diddordeb / Declaration of Interest – Dim / None

6) Cofnodion/Minutes:

Derbyniwyd cofnodion o'r Cyfarfod cynhaliwyd ar 9fed Mehefin 2009 gyda man newidiadau yn codi fel gwallau teipio.

Minutes of the Meeting held on 9th June 2009 were confirmed with slight amendments raised as typing errors.

6) Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:

Traffic a Parcio - Cadeirydd i holi am yr arwyddo sydd byth wedi cyrraedd tu allan i Londis. Bydd arolwg traffic yn cael ei gynnal yn Stryd Bangor, Uwch Menai a Stryd Menai er mwyn mesur maint y broblem.

Felin Sgwrsio – Bydd y Clwb Ieuentid yn defnyddio'r lle ar nos Fawrth. Clerc I ymchwilio i leoliadau eraill ar gyfer cyfarfodydd o'r Cyngor Cymuned.

Arddangosfa Gwyl y Felin – Diolchwyd i'r Cyngorwyr fu'n helpu ar y diwrnod. Roedd llawer o ddiddordeb yng nghynllun y Neuadd a chafwyd cyfle i ddangos www.felinheli.org. Diolchwyd i Delwedd a Gareth Jones am eu help efo'r lluniau.

Felin Daclus – amlinellodd y Cadeirydd y gwaith sy'n mynd ymlaen gyda'r cynllun allotments a'r prosiect efo'r Clwb Ieuentid yn y goedwig tu nol y Maes Parcio.

Rhaglen Blits – mae'r Cadeirydd wedi tynnu sylw'r Gang Cymunedol at y gwaith sy'n weddill a bydd hwn yn digwydd ar eu hymweliad nesaf.

Tai i bobol lleol – mae datblygwr yn edrych ar y posibilrwydd o godi 30 o dai i bobol lleol ger Y Wern.

Pwyllgor Rheoli – briff ar fin mynd i'r Pensaer.

Traffic and Parking – Chairman to enquire for the signs still not erected outside Londis. A traffic survey is to be conducted in Bangor Street, Uwch Menai and Menai Street to assess the scale of the problem.

FELIN SGWRSIO – The Youth Club will be using on Tuesday nights. The Clerk to investigate other possible locations to hold Community Council meetings.

GWYL Y FELIN EXHIBITION – the Councillor's that assisted during the day were thanked. Much interest was shown in the plans for the Memorial Hall and the opportunity to show www.felinheli.org. Delwedd and Mr Gareth Jones were thanked for helping with the photographs.

FELIN DACLUS – Chairman outlined the work that is progressing with the planned allotments and the project with the Youth Club in the forest behind the car park.

BLITZ PROGRAMME – the Community Gang's attention has been drawn to the work that is required and this will be attended to at their next visit.

LOCAL HOUSING – A developer is looking at the possibility of erecting 30 houses for local people near Y Wern.

HALL MANAGEMENT COMMITTEE – a brief will shortly be delivered to the Architect.

8) Arolwg o Ceir sy'n parcio a'r Stryd Bangor/ Survey of vehicles parking on Bangor Street

Arolwg i'w gynnal yn Stryd Bangor, Uwch Menai a Stryd Menai er mwyn mesur maint y broblem.

Survey to be held on Bangor Street, Uwch Menai and Menai Street to measure the extent of the problem.

9) Adroddiad Is-Bwyllgor Y Neuadd / Report of Hall Sub-Committee

Gweler adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd / See Hall Management Committee's report.

10) Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:

Cadarnhawyd gwariant Mis Mehefin. Cyflwynwyd y cyfrifon am y flwyddyn ariannol 2008/2009 i'w mabwysiadu gan y Cyngor . Penderfynwyd yn unfrydol derbyn y Cyfrifon fel rhai cywir.

Payments for the month of May were confirmed. The Accounts for the 2008/2009 financial year were presented for adoption. It was unanimously agreed to adopt the accounts as being correct.

11) Gohebiaeth/Correspondence:

Nodwyd y gohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis.
Correspondence received during the month were noted.

11) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

Blodau wedi eu plannu / Flowers have been planted.

13) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

Ni fydd Cyng Sian Gwenllian yn cymeryd unrhyw ran mewn trafodaeth ar geisiadau cynllunio.

Councillor Sian Gwenllian will take no part in discussions on planning matters.

12 Ffordd Glyder, Y Felinheli – Creu balconi ar y llawr cyntaf – dim gwrthwynebiad.

Create a balcony on the first floor – no objection.

14) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

Clerc i drefnu cael symud y ffens i ryddhau mwy o dir.

Clerk to arrange moving the fence so as to release more land.

15) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Canglwn japaneaidd wedi cael chwystrelliad cyntaf. Clerc i ordro'r bolardiau. Cais am chwynu o gwmpas yr ochrau i'w anfon at Felin Daclus.

Japanese knotweed has been sprayed for the first time. Clerk to order the bollards. A request to be sent to Felin Daclus to weed round the sides of the car park.

**16) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau
Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee**

Llwybrau – Cyng George Smith a'r Clerc i lunio llythyr i Gyngor Gwynedd yn tynnu sylw at y gwaith ddaeth i'r amlwg yn sgil yr Arolwg Trafodwyd cyflwyniad Mr Gareth Roberts. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn holi am grantiau at greu taflen bellach gyda'r Cyngor Cymuned yn talu dim mwy na £1,000 o'r costau. Clerc i drafod gyda'r Swyddog Adfywio.

Footpaths – Cllr George Smith and the Clerk to draft a letter to Gwynedd Council drawing their attention to the work that became apparent during the survey.

Mr Gareth Roberts' presentation was discussed. Agreed that the Clerk should enquire regarding possible grants that could be available to commission a further leaflet with the Community Council contributing no more than £1,000 towards the cost. Clerk to discuss with the Rural Development Officer.

17) CYSTADLEUAETH GARDDIO / GARDENING COMPETITION.

Cynghorwyr Pat White ac Eluned Owen yn trefnu.
Councillors Pat White and Eluned Owen arranging.

18) Adroddiad y Cynghorydd Sir/Report of County Councillor

Trafodwyd nifer o faterion ar lafar (Gweler crynodeb yn adroddiad cynghorydd Mehefin/Gorffennaf)

Numerous matters were discussed. (See a précis of the Councillors' report June/July)

19) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter

Clirio llwybr preifat rhwng Stryd Menai ac Uwch Menai ; penderfynwyd mai mater i'r perchnogion oedd hyn ond addawyd y buasai'r Cyngor yn ceisio cysylltu efo perchnogion y tai lle roedd y tyfiant ar ei waethaf.

Clearing the private footpath between Menai Street and Uwch Menai ; decided that this was a matter for the property owners but that the Council would attempt to contact the owners where the overgrowth was at its worst.

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y Pwyllgor i ben am 8.30 yh
Y cyfarfod nesaf i'w gynnal yn Y Neuadd Goffa am 7.00 y.h. Nos Fawrth , Medi 8fed.

No other matters to discuss and the Meeting finished at 8.30.p.m.

The next meeting will be held at the Memorial Hall at 7.00 p.m. on Tuesday 8th September, 2009